Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

## Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau

### Pecyn Gwybodaeth



www.senedd.cymru

# Croeso

Annwyl Ymgeisydd

Diolch i chi am fynegi diddordeb mewn bod yn Gadeirydd y Bwrdd Pensiynau ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd.

Y Senedd (sef Senedd Cymru) yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru (ar faterion nad ydynt wedi'u cadw'n ôl i Senedd y DU), i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae'n ddeddfwrfa un siambr sy'n cynnwys 60 o Aelodau, a fydd yn cynyddu i 96 o Aelodau yn 2026. Mae'r Senedd yn gyfreithiol ar wahân i Lywodraeth Cymru.

Cynllun â buddion wedi'u diffinio yw Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd. Ar hyn o bryd, mae 58 o aelodau gweithredol, 80 o aelodau sy'n bensiynwyr a 24 o aelodau gohiriedig.

Caiff asedau'r Cynllun, y pennwyd eu bod yn werth £47 miliwn ar 31 Mawrth 2024, eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Senedd, gan Mobius Life Limited, ac mae pedwar rheolwr buddsoddi yn eu trin. Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM. Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn cronfa Enillion Real Cynaliadwy, Cronfa Aml-ased Gynaliadwy, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Mynegai Ecwiti Byd-eang Moesegol (wedi'i rhagfantoli a heb ei rhagfantoli), cronfa eiddo a chronfa Giltiau Mynegrifol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i weithio tuag at eu hamcanion o ran ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, a'u hamcanion buddsoddi, i leihau cyswllt uniongyrchol y Cynllun â'r sector olew a nwy.

Gweinyddir y Cynllun ar hyn o bryd gan dîm pensiynau mewnol cryf iawn sydd hefyd yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol i'r Bwrdd. Mae'r gwaith gweinyddu wrthi'n cael ei symud i ddarparwr gweinyddu trydydd parti, Broadstone. Mae ansawdd data'r aelodau yn rhagorol. Mae perthynas gref gyda holl gynghorwyr y Bwrdd a bwrdd ymroddedig o ymddiriedolwyr.

Rydym am benodi Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Pensiynau ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn lle'r Cadeirydd sydd wedi rhoi'r gorau i'r swydd ar ôl saith mlynedd o wasanaeth gwerthfawr. Ar hyn o bryd, mae Cadeirydd dros dro yn cyflawni'r rôl tra bo'r Cadeirydd newydd yn cael ei benodi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn ei swydd o fis Ionawr, am gyfnod o bedair blynedd, ac mae'n bosibl y caiff hynny ei estyn am bedair blynedd arall. Bydd y cyfarfod cyntaf y bydd gofyn i'r Cadeirydd newydd fod yn bresennol ynddo'n cael ei gynnal ym mis Mawrth 2025. Bydd rhaglen gynefino rhwng y dyddiad penodi a dyddiad mynychu cyfarfod cyntaf y Bwrdd Pensiynau yn cynnwys cyfle i drosglwyddo'r awenau gyda'r Cadeirydd dros dro presennol.

Rydym yn awyddus i benodi Cadeirydd profiadol sy'n meddu ar gyfoeth o wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd i arwain y Bwrdd Pensiynau. Ceir rhagor o fanylion am y sgiliau rydym yn chwilio amdanynt yn Rôl y Cadeirydd a Manyleb y Person.

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl i chi am rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau, a gwybodaeth am y broses ymgeisio ar gyfer y rôl.

Diolch i chi ymlaen llaw am fynegi diddordeb yn y rôl hon. Edrychwn ymlaen at weld eich cais.



Yn gywir,

Elizabeth Haywood, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau

## Rôl y Bwrdd

Mae'r Bwrdd Pensiynau yn cynnwys dau gynrychiolydd a enwebir gan Aelodau presennol a blaenorol o'r Senedd, dau gynrychiolydd a benodir gan Gomisiwn y Senedd ac un Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol a fydd yn Gadeirydd.

Mae'r Bwrdd Pensiynau yn gyfrifol am:

- Sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau'r Cynllun ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun.
- Buddsoddi asedau'r Cynllun gan sicrhau cyllid digonol i dalu buddion yr aelodau tra pery'r Cynllun.
- Rhoi gwybodaeth i'r aelodau.
- Ystyried adroddiadau a gaiff eu paratoi gan weinyddwyr y Cynllun a chynghorwyr allanol ar wahanol agweddau ar redeg y Cynllun, gan gynnwys:
    - Perfformiad buddsoddiadau'r Cynllun
    - Newidiadau mewn deddfwriaeth
    - Sefyllfa ariannu'r Cynllun
    - Adroddiad y Cynllun a'r Cyfrifon.
- Llywodraethiant a gweinyddiaeth y Cynllun, rheoli risgiau gan gynnwys seiberddiogelwch a diogelu data a sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol ar waith.
- Cadw cofnodion a sicrhau ansawdd data'r aelodau.
- Sicrhau bod y cyfraniadau cywir yn cael eu talu i'r Cynllun.
- Rheoli achosion o wrthdaro buddiannau.
- Cyhoeddi gwybodaeth am y Bwrdd.
- Ystyried papurau a gaiff eu paratoi gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun cyn pob cyfarfod a chymryd rhan weithredol yn y cyfarfodydd.
- Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi a datblygu yn unol â'r gofynion Gwybodaeth a Dealltwriaeth i Ymddiriedolwyr a bennir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau, fel y'u nodir yn ei God Ymarfer.

- Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd gwblhau pecyn cymorth Ymddiriedolwyr y Rheoleiddiwr Pensiynau.
- Caiff gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd Pensiynau eu hasesu'n barhaus fel y gellir teilwra hyfforddiant i adlewyrchu eu hanghenion ac i gyd-fynd â'r materion y byddant yn eu hystyried.

## Rôl y Cadeirydd

Rôl y Cadeirydd yw darparu arweiniad a chefnogaeth gref i'r Bwrdd Pensiynau. Nod y Cadeirydd yw galluogi'r Bwrdd Pensiynau i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, Rheolau'r Cynllun a'r Cod Ymarfer ar Lywodraethu a Gweinyddu Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Bydd disgwyl i'r Cadeirydd ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad personol i helpu'r Bwrdd Pensiynau wrth iddo wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu papurau a gaiff eu paratoi gan ysgrifenyddiaeth y Cynllun a chynghorwyr proffesiynol, arwain trafodaethau a sicrhau bod y ffocws yn parhau ar y materion allweddol. Bydd disgwyl i'r Cadeirydd roi cyngor ac arweiniad i'r Bwrdd mewn meysydd lle mae gan y Cadeirydd arbenigedd a phrofiad penodol, a rheoli'r berthynas â'r Bwrdd Taliadau.

Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o wahanol strategaethau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau cronfa bensiwn, a gwerthfawrogiad o'r gwahanol risgiau/buddion sy'n gysylltiedig â gwahanol ddulliau.

Rhaid i'r Cadeirydd ddeall beth sy'n cyfrif fel gweinyddiaeth Cynllun o ansawdd da, a sicrhau y creffir, drwy'r Bwrdd, ar brofiadau'r aelodau. Mae'r Cadeirydd yn chwarae rhan allweddol wrth gysylltu â Thîm Pensiynau'r Comisiwn ac Ysgrifennydd y Cynllun ar ran y Bwrdd.

Dylai fod gan y Cadeirydd brofiad o ymdrin â chynghorwyr proffesiynol Cynllun, Actiwari Cynllun, Cynghorydd Cyfreithiol Cynllun, Rheolwr Cronfeydd Cynllun ac Archwilwyr Cynllun ar sail broffesiynol-i-broffesiyno

## Manyleb y Person

Mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth, y profiad a'r cymwyseddau personol hanfodol a geisir ar gyfer y Cadeirydd newydd.

1. Y bersonoliaeth a’r presenoldeb sydd eu hangen i ennyn parch yr Ymddiriedolwyr a chael dylanwad arnynt.

2. Safonau uchel o ran uniondeb a chyfrinachedd.

3. Profiad o gadeirio Byrddau Ymddiriedolwyr Pensiynau.

4. Synnwyr cyffredin a doethineb wrth ymdrin â’r holl randdeiliaid, a bod yn gyfathrebwr medrus.

5. Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o Ddeddf Pensiynau’r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a’r Rheoleiddiwr Pensiynau, gan gynnwys gofynion y Cod Ymarfer Cyffredinol.

6. Arbenigedd digonol i fonitro perfformiad buddsoddiadau’r Cynllun.

7. Goruchwylio’r broses o lywodraethu’r Cynllun, gan gynnwys cynlluniau busnes, cyllidebau’r Cynllun, ystyried gwrthdaro buddiannau a sicrhau bod gan fwrdd yr ymddiriedolwyr brosesau rheoli risg effeithiol ar waith.

8. Gweithredu fel arweinydd y Bwrdd Pensiynau gan arddel y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau eraill o’r bwrdd.

9. Cynrychioli buddiannau’r Cynllun i bob parti perthnasol, gan gynnwys cyflogwyr, cynghorwyr, darparwyr gwasanaethau ac aelodau.

10. Meddu ar safbwynt annibynnol pan fo angen, a bod yn rhydd rhag gwrthdaro.

11. Gallu adnabod potensial pob ymddiriedolwr unigol, a sicrhau bod eu gwybodaeth a’u sgiliau’n cael eu defnyddio’n effeithiol.

12. Annog aelodau’r Bwrdd Pensiynau i feddwl yn strategol ac arddel safbwynt eang, hirdymor.

13. Helpu i greu cyfaddawd a chonsensws rhwng gwahanol bartïon, er mwyn cyflawni canlyniadau da i aelodau.

14. Annog cyfranogiad gan bob aelod o’r Bwrdd, gan gynnwys aelodau newydd.

15. Cydweithio i ddatblygu perthnasoedd gwaith da.

## Telerau'r penodiad

Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cael ei benodi gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

Bydd y penodiad yn amodol ar Gliriad Diogelwch Cenedlaethol.

## Tâl

Gofynnir i ymgeiswyr gynnwys manylion eu ffi arfaethedig gyda'u cais.

## Cyfnod y penodiad

Penodir Cadeirydd y Bwrdd am gyfnod o 4 blynedd.

## Ymrwymiad o ran amser

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn paratoi ar gyfer o leiaf dri chyfarfod o'r Bwrdd Pensiynau bob blwyddyn, y bydd yn bresennol ynddynt ac yn gwneud gwaith dilynol ar eu cyfer.  Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn amlach os bydd angen gwneud hynny i fodloni gofynion y Cynllun, ac er mwyn cwblhau hyfforddiant.

## Lleoliad

Cynhelir cyfarfodydd ar hyn o bryd ar Microsoft Teams.

Mae'n bosibl y bydd angen mynd i swyddfeydd Comisiwn y Senedd ym Mae Caerdydd o bryd i'w gilydd.

## Y broses ymgeisio

- Gallwch wneud cais drwy gyflwyno CV a datganiad ategol sy'n amlinellu'r hyn wnaeth eich cymell i wneud cais am y rôl, a sut rydych yn bodloni manyleb y person (dim mwy na 2 ochr A4). Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi sylw i'r gofynion allweddol a nodir ym manyleb y person.

- Gofynnir i ymgeiswyr gynnwys manylion eu ffi arfaethedig gyda'u cais.

- Rhowch fanylion dau ganolwr (yn ddelfrydol, dylai un ohonynt fod yn gyflogwr presennol) – dim ond gyda'ch caniatâd ac os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer y byddwn yn cysylltu â'r canolwyr.

- Dylech lenwi'r ffurflen monitro Cyfle Cyfartal pan fyddwch yn llwytho eich manylion. Rydym yn awyddus i sicrhau bod pob un o'n swyddi'n hygyrch i bob aelod o'r gymuned ac rydym yn defnyddio'r data hyn i fonitro ein cynnydd yn hyn o beth.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais erbyn y dyddiad cau a nodir isod.

- Anfonwch eich cais at swyddi@senedd.cymru

## Amserlen

**Dyddiad cau:** 10:00 22 Tachwedd 2024

**Cyfweliadau terfynol:** Yr wythnos sy’n dechrau 9 Rhagfyr 2024.

Ar ôl y dyddiad cau, bydd y panel penodi yn llunio rhestr fer, gan asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer y rôl yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir yn y CV a’r datganiad ategol.

Os hoffech gael trafodaeth gychwynnol am y rôl, cysylltwch â’n Pennaeth Pensiynau, Donna Davies (0300 200 6523) Donna.Davies@senedd.cymru